# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd**

**Dyddiad y cyfarfod: 26 Tachwedd 2024**

**Aelod Cabinet: Cynghorydd Nia Jeffreys**

**Swyddog Cyswllt: Sioned Williams**

**Rhif Cyswllt: 01286 679547**

**Pwnc: ADRODDIAD HERIO PERFFORMIAD AELODAU CABINET ECONOMI A CHYMUNED**

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

---

**Y RHESYMAU PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru cyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd dwi yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet Economi a Chymuned. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

## 2. PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2023-2028 (Blaenoriaethau Gwella)

2.1 Mae'r tabl yn ATODIAD 1 yn rhoi diweddariad ar gynnydd tri prosiect blaenoriaeth Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 dan adran **Gwynedd Lewyrchus - Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng.** O'r wybodaeth yma, fe nodwch fod yr Adran wedi gwneud cynnydd da yn erbyn prif gerrig milltir y tri prosiect dros y misoedd diwethaf. Y prif risg sy'n gyffredin i'r tri cynllun yma ydi fod cyllid Cronfa Ffyniant Bro (Levelling Up Fund – LUF) a Chronfa Ffyniant Gyffredin (Shared Prosperity Fund - SPF) sydd yn ariannu'r cynlluniau hyn, yn dod i ben diwedd mis Mawrth 2025, gyda ansicrwydd am gyllid i weithredu'r prosiectau wedi hyn. Hoffwn dynnu sylw yn benodol at y datblygiadau canlynol:

**Prosiect Blaenoriaeth: Adfywio Cymunedau a Chanol Trefi**

- Mae Cronfa Allweddol Cefnogi Cymunedau, gwerth £1.8m o arian SPF, wedi ei ymrwymo'n llawn a 22 o brosiectau mentrau a sefydliadau lleol a gefnogir yn cael eu gweithredu. Yn ogystal mae Prosiect Gwella Profiad Canol Tref wedi sicrhau £1.8 o arian SPF ac yn weithredol, ac yn cael ei gyd-gordio gan grŵp prosiect trawsadrannol. Bydd effaith y cynlluniau hyn yn cael ei mesur dros y misoedd nesaf wrth i'r gwaith gael ei gyflawni.

- Cwblhawyd y gwaith o baratoi Cynllun Creu Lleoedd ar gyfer canol trefi Pwllheli, Porthmadog a'r Bala a chomisiynwyd gwaith i baratoi Cynllun Creu Lle newydd ar gyfer canol tref Dolgellau hefyd. Dros y misoedd diwethaf, sicrhawyd arian Traws Newid Trefi ychwanegol ar gyfer cynllun gwella Canolfan Bro Tegid, Bala a Chynllun Twr, Pwllheli

- Cafodd Achos Amlinellol Strategol Cynllun Hwb Iechyd a Lles Bangor ei gymeradwyo gan Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, ac mae cais am gyfraniad ariannol Llywodraeth Cymru wedi ei gyflwyno.

**Prosiect Blaenoriaeth: Creu'r amgylchiadau gorau posib yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd mewn i waith**

- Mae 45 o fusnesau ar hyd a lled Gwynedd wedi derbyn cynigion o gymorth gwerth £1.4 miliwn o'r Cronfeydd Datblygu Busnes ariannwyd gyda'r SPF. Mae dros £1miliwn eisoes wedi ei dalu i fusnesau. Mae'r cynllun Ailwefru, gomisiynwyd gan y Cyngor, hyd yma wedi helpu 42 busnes lleol hefyd i adolygu eu gweithgaredd a pharatoi i'r dyfodol. Mae 17 busnes arall wedi cofrestru.

- Rydym yn parhau i gefnogi cynlluniau Cais Twf Gogledd Cymru, gan roi sylw arbennig i'r cynlluniau sydd yn cynnig y budd mwyaf i Wynedd yn y Rhaglen Ddigidol, Rhaglen Ynni, Rhaglen Twristiaeth Bwyd Amaeth a'r Rhaglen Tir ac Eiddo.

- Cynhaliwyd Wythnos Busnes Gwynedd mis Hydref gyda chyfres o ddigwyddiadau wedi eu trefnu i fusnesau yn Nolgellau, Pwllheli a Bangor. Mae uchafbwyntiau'r digwyddiadau i weld ar ffrydiau X a Linkedin a bydd newyddlen i Aelodau yn cael ei gynhyrchu hefyd i rannu prif negeseuon busnesau Gwynedd.

- Mae 203 o drigolion Gwynedd oedd wedi eu heithrio o'r byd gwaith wedi sicrhau swydd yn dilyn derbyn cefnogaeth tîm Gwaith Gwynedd hyd yma yn ystod 2024/25. Cynhaliwyd 8 o ffeiriau swyddi leded y sir i helpu cyflogwyr ac unigolion yn chwilio am waith. Mynychwyd y ffeiriau gan dros 130 o gyflogwyr a dros 750 o unigolion.

**Prosiect Blaenoriaeth: Hyrwyddo Ein Diwylliant ac Economi Ymweld Cynaliadwy**

- Mae'r strwythur rheoli newydd ar gyfer y Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy yn weithredol ac yn llywio datblygiad y Cynllun Gweithredu ar gyfer 2024-25. Fel rhan o'r gwaith mae arolwg barn trigolion ar dwristiaeth yn cael ei gynnal ac ymchwil

budd cymunedol yn deillio o ddigwyddiadau hefyd yn cael ei baratoi ar y cyd gyda Phrifysgol Bangor.

- Fe nodwch o’r tabl yn Atodiad 1 fod cynnydd sylweddol yn y rhaglen Llewyrch o’r Llechi i greu budd lleol o ddynodiad Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Cymru. Hoffwn dynnu sylw yn benodol fod y gwaith uwchraddio ar Neuadd Ogwen Bethesda bron wedi ei gwblhau; mae’r gwaith yn Parc Padarn a’r Amgueddfa Lechi yn Llanberis wedi cychwyn; mae llwybr cyswllt Blaenau Ffestiniog ar waith ac mae gwelliannau ar Aelwyd yr Urdd ac adeiladau’r Stryd Fawr wedi cychwyn ym Mlaenau Ffestiniog. Yn ogystal, mae gwaith celf a gwelliannau stryd fawr wedi eu cytuno gyda partneriaid lleol ym Mhenygroes, Tywyn a Phorthmadog. Dwi’n falch o ddweud hefyd fod cais £2m i Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol wedi bod yn llwyddiannus fydd yn ymestyn cefnogaeth i’r cymunedau llechi am gyfnod o 5 mlynedd.

- Mae 131 o fentrau, cwmnïau neu gymdeithasau wedi eu cefnogi gyda buddsoddiad cronfa cefnogi Diwyllesiant SPF sydd werth £705,661.16. Yn ogystal drwy’r cynllun yma mae £360,000 yn cael ei fuddsoddi i ail-ddehongli Amgueddfa Lloyd George. Mae’r Amgueddfa bellach wedi cau er mwyn cyflawni gwaith gyda’r bwriad o ail-agor erbyn Pasg 2025.

## 3. PERFFORMIAD GWASANAETHAU’R ADRAN

3.1 Mae Dashfwrdd Perfformiad yr Adran yn cael ei adolygu yn rheolaidd. Cafwyd cyfle i graffu perfformiad y gwahanol wasanaethau mewn cyfarfod arbennig 16 Medi 2024 a hoffwn dynnu sylw Aelodau’r Cabinet i'r materion canlynol:

**Gwasanaeth Adnoddau Hamdden – Byw'n Iach, Parciau Gwledig Padarn a Glynllifon**

3.2 Adroddwyd tro diweddaf ar adferiad Cwmni Byw yn Iach yn darparu gwasanaethau. Gwelir eto fod nifer ymweliadau i'r canolfannau hamdden yn uwch yn ystod chwe mis cyntaf 2024/5 o’i gymharu â’r un cyfnodau ar gyfer 2023/4 a 2022/23.

3.3 Adroddir hefyd fod lefel boddhad cwsmer ar gyfer eleni fymryn yn uwch na llynedd. Mae’r data yn dangos mai staff y canolfannau sydd yn parhau i sgorio uchaf, gyda chyfleusterau ac offer ystafelloedd ffitrwydd yn sgorio isaf oherwydd eu hoedran a chyflwr.

3.4 Serch hynny, mae’n rhaid adrodd fod y cwmni wedi wynebu cynnydd mewn costau yn ystod cyfnod 2024/25 o ganlyniad i absenoldebau tymor hir neu gyfnodau mamolaeth, a’r angen i ryddhau staff ar gyfer hyfforddiant, yn deillio o drosiant staff. Rhagwelir y bydd nifer staff yn dychwelyd dros gyfnod yr Hydref gan leihau costau goramser a staff achlysurol.

3.5 Dros y misoedd diwethaf mae ceisiadau cynllunio wedi eu cyflwyno ar gyfer datblygiadau ym Mharc Padarn fel rhan o’r cais Llewyrch o’r Llechi Cronfa Ffyniant Gyffredin (LUF). Mae’r gwelliannau yn cynnwys bloc toiledau newydd, gwaith adfer

adeiladau Hafod Owen, sied y 'Fire Queen' a strwythurau Chwarel Vivian. Nodir hefyd fod Amgueddfa Lechi Cymru wedi cau am gyfnod o ddwy flynedd er mwyn datblygu'r safle; ac yn ystod y cyfnod yma hefyd bydd y Grid Cenedlaethol yn gwneud gwaith newid cebl yn ardal Gilfach ddu.

3.6 Ym Marc Glynllifon, mae gwelliannau hefyd ar waith gan sicrhau grant SPF ar gyfer uwchraddio llwybrau, arwyddion newydd ac ymgyrchoedd hyrwyddo a marchnata drwy gyfryngau cymdeithasol.

3.7 Ar gyfer cyfnod 2024/5, mae cyfartaledd boddhad cwsmer ar gyfer y Parciau Gwledig yn 93.5%, ac yn gynnydd sylweddol o'i gymharu â chyfartaledd o 72% ar gyfer 2023/24.

**Gwasanaethau Morwrol, Hafan Pwllheli a Doc Fictoria Caernarfon.**

**Morwrol - Traethau**

3.8 Er gwaethaf tywydd ansefydlog dros brif dymor yr Haf, cafwyd cyfnodau hynod brysur ar ein harfordir a'r traethau eto eleni. Ystyrir fod trefniadau rheoli traethau'r Gwasanaeth wedi gweithio yn effeithiol, ac wedi derbyn adborth cadarnhaol gan ddefnyddwyr. Yn anffodus, roedd digwyddiad difrifol ar draeth Abermaw fin nos ddiwedd mis Mai gan amlygu peryglon sy'n gysylltiedig â'r arfordir.

3.9 Mae yn werth nodi fod 68% o ymatebwyr holiadur boddhad cwsmer traethau Gwynedd o'r farn fod eu profiad o'n traethau yn 'Dda Iawn' (47%) neu'n 'Dda' (21%); sydd yn ostyngiad o tua 8% ers llynedd. Mae'r adborth yn nodi fod y traethau'n hardd, yn lân ac yn ddiogel, ond pryderon ynghylch agweddau megis cŵn afreolus. Cafodd Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (Rheoli Cŵn) ei adolygu yn gynharach eleni, a daeth y Gorchymyn newydd i rym ganol mis Awst - bydd y parhau mewn grym am gyfnod o 3 blynedd.

**Morwrol - Harbyrau**

3.10 Cynyddodd nifer y cwsmeriaid gyda chytundeb angori 6.5% yn ein harbyrau o'i gymharu ar flwyddyn flaenorol, sef cynnydd o 250 i 266. Mae'r rhagolygon ar gyfer 2025 yn addawol gyda nifer o ymholiadau wedi eu derbyn dros yr wythnosau diwethaf gan gwsmeriaid newydd. Mae prif gadwyni angorfeydd harbwr Porthmadog wedi eu hadnewyddu ac mae diogelwch wedi'i wella yn harbwr Abermaw a Porthmadog drwy osod system camerâu TCC newydd. Yn Aberdyfi, mae caban dros dro wedi ei osod ar y cei oherwydd pryderon am gyflwr yr adeilad presennol, a gwaith wedi cychwyn er mwyn ystyried opsiynau ar gyfer y dyfodol.

3.11 Yn ystod 2024/5, mae'r Gwasanaeth wedi ymateb i ddifrod ar yr arfordir oherwydd stormydd cryf. Yn mis Mehefin, bu'n rhaid symud cychod oedd wedi mynd i drafferthion yn sianel harbwr Pwllheli. Yn ystod gwyntoedd cryfion storm Ashley ym mis Hydref, roedd difrod i strwythurau arfordirol, a thorrodd tri cwch yn rhydd o'u hangorfeydd yn harbwr Porthmadog. Llwyddodd staff y Gwasanaeth i adfer y sefyllfa gan osgoi difrod i'r cychod nac unrhyw lygredd i'r harbwr.

**Hafan Pwllheli a Doc Fictoria**

3.12 Gwelwyd gostyngiad bychan yn nifer cwsmeriaid yn Hafan Pwllheli dros y chwarter diwethaf - lawr o 98% i 95%; colli 4 cwsmer. Mae rhan helaeth o rai sydd wedi canslo wedi adrodd mai'r cynnydd mewn costau byw ydi'r rheswm a'u bod yn rhoi gorau i hwylio yn gyfan gwbl. Mae Gwasanaeth yn cadw rhestr o ddarpar gwsmeriaid sydd datgan diddordeb mewn cymryd angorfa yn yr Hafan, ond heb ymrwymiad pendant ar gyfer gwneud hynny,

3.13 Yn ystod 2024 gwelwyd cynnydd pellach yn y canran bodlonrwydd cwsmer Hafan Pwllheli sydd wedi codi o 89% i 91% ers y flwyddyn flaenorol. Mae'r data yn dangos mai staff yr Hafan sydd yn sgorio uchaf, gyda safon y maes parcio a'r Wifi ar waelod y rhestr.

3.14 Ar hyn o bryd mae Doc Fictoria yn llawn ac mae rhestr aros am angorfeydd blynyddol. Mae'r gwaith o ychwanegu safle cawodydd a thoiledau ar wahân i ferched wedi ei gwblhau ac wedi bod yn weithredol eleni.

**Archifau**

3.15 Ar gyfartaledd, rhwng mis Ebrill - Hydref 2024 mae 91% o ddefnyddwyr wedi adrodd eu bod yn fodlon iawn gyda'r gwasanaeth. Roedd hyn yn 93% ar gyfer Hydref gyda 253 o ddefnyddwyr wedi cwblhau holiadur. Mae'r Gwasanaeth wedi delio gyda 1,489 o ymholiadau ers mis Ebrill gan estyn 3,889 o ddogfennau i'w gweld gan y cyhoedd. Mae 2,766 o ddogfennau wedi eu digido yn y cyfnod hwn. Bu i'r Gwasanaeth ddarparu sesiynau i 1,164 o ddisgyblion ar draws ysgolion Gwynedd ers Ebrill gyda 100% o athrawon yn cytuno'n gryf fod safon a pherthnasedd y Gwasanaeth yn gwella dealltwriaeth plant o'u hanes a'u treftadaeth.

**Amgueddfeydd a'r Celfyddydau**

3.16 Mae'r cyfanswm cronnus sy'n ymweld ag amgueddfeydd ac orielau'r Gwasanaeth hyd yma yn 19,404 ac yn argoeli y bydd yr uchelgais o 25,000 y flwyddyn yn cael ei gyrraedd neu ei basio. Ar gyfartaledd mae 95% o ddefnyddwyr yn fodlon gyda'r Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau. Adborth positif i Storiel yn cynnwys: *"Arddangosfa hyfryd - llawn cymeriad a lliw", "Ardderchog"* .

3.17 Fe agorwyd Amgueddfa Lloyd George ar gyfer Pasg 2024 ac fe'i caewyd ganol Medi cyn diwedd y tymor i wireddu buddsoddiad grant o £360,000 gyda chyfraniad o £250,000 SPF i'w ail-ddehongli. Bydd y gwaith ail-ddehongli yn digwydd dros y misoedd nesaf cyn ail-agor erbyn Pasg 2025.

3.18 Mae'r Tîm Celfyddydau Cymunedol wedi cynnal rhaglen o weithgareddau i gefnogi mynediad i'r celfyddydau, yn enwedig yn y maes iechyd, lles, a thaclo unigrwydd. Dyrennir grantiau ac mae'r galw amdanynt yn parhau - grantiau Noson Allan; grantiau

cronfa diwylliant SPF; Cronfa newydd Sbarduno wedi derbyn ymateb da gyda 17 cynllun wedi ei gymeradwyo. Cyflwynwyd cais llwyddiannus ar gyfer prosiect "Celf ar Bresgripsiwn" i Gyngor Celfyddydau mewn partneriaeth â Chwmni Fran Wen a Phrifysgol Bangor a byddwn yn mynd ati i weithredu dros y misoedd nesaf. Cafwyd adborth cadarnhaol hefyd i waith Oriel Ysbyty Gwynedd sydd o dan ofal y Tîm a hynny yn dilyn arddangosfa ddiweddar gyda Gisda.

**Llyfrgelloedd**

3.19 Cafodd 168,416 o lyfrau eu benthyg o lyfrgelloedd Gwynedd rhwng Ebrill - Hydref 2024 sy'n cymharu â 176,862 yn ystod yr un cyfnod yn 2023. Cafodd 45,982 o eitemau digidol eu lawr lwytho / benthyg yn 2023 a 76,577 yn 2024 yn ystod yr un cyfnod sy'n dangos y cynnydd mewn benthyciadau digidol. Mae benthyciadau digidol yn parhau i gynyddu fis ar ôl mis. Yn ystod y cyfnod Ebrill - Hydref 2024 roedd 42,930 benthycwyr actif o'i gymharu â 41,739 yn ystod yr un cyfnod yn 2023.

3.20 Mae'r Gwasanaeth wedi cynnal 2 arolwg bodlonrwydd yn 2024 sy'n dangos lefelau bodlonrwydd o 98% a 100% eleni. Mae sawl gohebiaeth ar Wal lwyddiannau'r Cyngor yn adrodd ar werthfawrogiad trigolion Gwynedd o'r gwasanaeth.

3.21 Trefnwyd 17 o weithgareddau dros wyliau hanner tymor i blant eleni, yn amrywio o weithgaredd chwarae meddal i blant o dan 3 oed i sesiynau paentio efo aerosols i blant a phobl ifanc.

3.22 Mae'r Gwasanaeth yn parhau i ddosbarthu cardiau SIM i gefnogi mynediad i'r rhyngrwyd i'r sawl sydd eu hangen drwy'r cynllun Databank Cenedlaethol.

3.23 Mewn cydweithrediad â Iechyd Cyhoeddus Cymru mae Llyfrgell Bangor bellach yn fan dosbarthu citiau Iechyd Rhywiol a bydd y ddarpariaeth yn cael ei ehangu i Lyfrgell Caernarfon yn fuan.

3.24 Mae newidiadau i'r system rheoli Llyfrgell (LMS) ar ddigwydd, a phob aelod o staff Llyfrgell yn mynychu hyfforddiant i ymgynefino a'r system newydd cyn mynd yn fyw 11 Rhagfyr. Mae Cyngor Gwynedd yn ymfalchïo yn y ffaith mai'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd arweiniodd ar y prosiect hwn ar ran pob Gwasanaeth Llyfrgell yng Nghymru.

**Neuadd Dwyfor**

3.25 Mae'r gyfradd bodlonrwydd yn parhau yn eithaf uchel, gyda'r gyfradd arferol rhwng 92%-96% a'r sylwadau yn rheolaidd yn canmol y cyfleusterau, y staff a'r gofal cwsmer. Un o flaenoriaethau 2024 oedd gwella amrywiaeth y rhaglen drwy gynnig mwy o ddigwyddiadau cerddorol byw, yn ychwanegol i'r cynnig ffilmiau a sioeau theatr arferol. O ganlyniad mae nifer o nosweithiau wedi eu cynnal ac mae'r clwb ffilm misol ar nos Lun hefyd yn profi'n llwyddiant. Mae'r syniadau hyn i gyd yn fodd o adnewyddu Neuadd Dwyfor, apelio at gynulleidfaoedd hen a newydd a cheisio cynyddu incwm. Profodd y

tywydd glawog yn ystod gwyliau'r haf yn fanteisiol i Neuadd Dwyfor, gan arwain at ddenu niferoedd uchel iawn ar adegau i weld yr arlwy ffilmiau plant.

**Gwasanaethau Economi ac Adfywio**

3.26 Mae'r gwasanaethau Datblygu'r Economi, Twristiaeth, Adfywio a Cefnogi Cymunedau wedi canolbwyntio eu hymdrechion dros y misoedd diwethaf ar weithredu'r prosiectau blaenoriaeth sydd wedi cael eu hamlinellu yn Atodiad 1. Mae perfformiad y gwasanaethau hyn felly wedi cael ei adrodd yno.

## 4. SEFYLLFA ARIANNOL

4.1 Mae gan yr Adran gynllun oedd i fod i greu arbedion o £100,000 rhwng 2022/23 - 2024/25, sef cynllun ail fodelu Neuadd Dwyfor. Bu i'r argyfwng Covid-19 arwain at oediad mewn gwireddu gwaith datblygu yn y Neuadd, ond wedi ei gwblhau bellach. Er hynny, mae'n amlwg fod yr argyfwng a'r cynnydd mewn costau byw, ynghyd â ffactorau eraill fel effaith ffurf newydd o wylio ffilmiau, gyda nifer fawr o bobl yn disgwyl i ffilmiau gael eu rhyddhau ar y we /teledu, yn codi pryder am ein gallu i weithredu'r arbedion yn llawn. Ar hyn o bryd, mae'n anodd gweld effaith hir dymor ar niferoedd fydd yn mynychu'r Neuadd.

4.2 Mae un cynllun arbedion yn parhau o flynyddoedd blaenorol (cyfanswm o £45,000), sy'n amodol ar godi ffioedd parcio ar y safle. Mae'r gwaith bellach wedi ei gwblhau, ond mae pryderon wedi eu lleisio yn lleol ynghylch cyflwyno ffioedd parcio, a bydd trafodaethau lleol yn parhau ynghylch trefniadau rheoli'r safle i'r dyfodol, gan gynnwys ffioedd sydd i'w cyflwyno.

4.3 Gan eithrio arbedion cynlluniau a nodir yn 4.1 a 4.2, mae 4 cynllun cyfwerth â £30,640 yn parhau i'w gwireddu yn 2024/25, gan ddisgwyl byddent wedi eu gwireddu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae cynlluniau cyfredol gwerth £135,020 wedi eu rhaglennu ar gyfer 2025/26.

4.4 Adroddwyd ar berfformiad ariannol cynhwysfawr o sefyllfa'r Adran yn gyfarfod 15 Hydref 2024 o'r Cabinet, gyda rhagolygon y bydd yr Adran yn gorwario erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2024/25. Mae'r gorwariant yn bennaf ar ddiffyg incwm yn Neuadd Dwyfor, oherwydd y rhesymau nodir yn 4.1, ynghyd â chostau uwch rhedeg eiddo Byw'n Iach, diffyg incwm gwasanaeth Morwrol a diffyg incwm Storiel. Byddwn yn parhau i adolygu'r meysydd yn agos yn y flwyddyn ariannol newydd, gan obeithio adnabod cyfleoedd i weithredu arbedion lle'n bosib. Mae cyfuniad o danwariant ar benawdau eraill ynghyd â defnydd o gronfeydd wrth gefn yn lleihau'r gorwariant a adroddir i £127k.

## BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

### Swyddog Monitro:

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

### Prif Swyddog Cyllid:

Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol yr Adran Economi a Chymuned.

**ATODIAD 1**

| ADRODDIAD PERFFORMIAD PROSIECT BLAENORIAETH ADRAN ECONOMI A CHYMUNED | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth Gwella:** | **Gwynedd Lewyrchus** |
| **Prosiect:** | **Adfywio Cymunedau a Chanol Trefi** |
| **Adroddiad Arweinydd Prosiect:** | **Llyr B Jones** |
| **Dyddiad:** | **Tachwedd 2024** |
| **Amcan y prosiect:** | Byddwn yn sefydlu Fframwaith Adfywio drwy ddatblygu Cynlluniau Adfywio Lleol ar gyfer 13 dalgylch ar draws y sir ac yn sicrhau trefniadau trawsadrannol o fewn y Cyngor er mwyn sicrhau fod rhaglenni gwaith yn cyd-blethu a rhannu gwybodaeth gyda chymunedau drwy barhau gyda'r gwaith ymgysylltu. Bydd cynlluniau gweithredu ar gyfer Canol Tref/ Dinas yn cael eu paratoi ar gyfer trefi unigol. |

**1. Beth sydd wedi ei gyflawni ers y cyfarfod diwethaf?**

- Mae Cynlluniau Adfywio Lleol drafft wedi eu paratoi ar gyfer 13 dalgylch, gyda sylwadau a gwybodaeth gan wahanol Adrannau'r Cyngor wedi eu hymgorffori
- Cafodd cyfres bellach o gyfarfodydd eu cynnal ar draws Gwynedd yn ystod Mai / Mehefin gan dderbyn adborth gan sefydliadau lleol a thrafod y cynlluniau gweithredu lleol
- Mae Cronfa Allweddol Cefnogi Cymunedau, gwerth £1.8m, wedi ei ymrwymo'n llawn gan gefnogi 22 o brosiectau sefydliadau lleol
- Mae Prosiect Gwella Profiad Canol Tref wedi sicrhau £1.8 o arian SPF ac yn weithredol, ac yn cael ei gyd-gordio gan grŵp prosiect traws-Adrannol
- Cwblhawyd y gwaith o baratoi Cynllun Creu Lleoedd ar gyfer canol trefi Pwllheli, Porthmadog a'r Bala
- Comisiynwyd gwaith i baratoi Cynllun Creu Lle ar gyfer canol tref Dolgellau (gyda grant Traws Newid Trefi Llywodraeth Cymru)
- Cafodd Achos Amlinellol Strategol Cynllun Hwb Iechyd a Lles Bangor ei gymeradwyo gan Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, a chais ariannol wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru
- Cynhaliwyd cyfarfodydd o Grŵp Eiddo Gwag y Cyngor, ac mae rhaglen waith wedi ei gosod ar gyfer peilot eiddo gwag Stryd Fawr Bangor
- Sicrhawyd arian Traws Newid Trefi ychwanegol ar gyfer cynllun gwella Canolfan Bro Tegid, Bala a Chynllun Twr, Pwllheli

**2. Y camau nesaf**

- Byddwn yn cynnal cyfres bellach o gyfarfodydd yn yr ardaloedd lleol gyda'r bwriad o sefydlu grwpiau gwaith ar gyfer cyd-gordio a monitro'r cynlluniau gweithredu lleol
- Byddwn yn paratoi cyflwyniadau i'r Fforymau Ardal er mwyn diweddaru'r Aelodau Lleol
- Byddwn yn gweinyddu  a hawlio holl wariant Gronfa Allweddol Cefnogi Cymunedau

- Byddwn yn cwblhau a hawlio holl wariant Prosiect Gwella Profiad Canol Trefi yn ystod cyfnod 2024/5
- Byddwn yn cynnal gweithdy traws-Adrannol er mwyn ystyried ceisiadau Rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru 2025/26
- Byddwn yn cwblhau Cynllun Creu Lle canol tref Dolgellau
- Bydd gwaith peilot eiddo gwag Stryd Fawr Bangor yn weithredol
- Bydd y Grŵp Eiddo Gwag wedi casglu data a gwybodaeth am eiddo gwag sydd wedi dod yn ôl i ddefnydd yn ystod cyfnod 2024/25

**3. Risgiau**

- Rhagwelir y bydd trefniadau cyd-lynu a monitro Cynlluniau Adfywio Lleol yn amrywio o ardal i ardal, gyda rhai ardaloedd angen mwy o gefnogaeth gan y Cyngor
- Adnoddau dros dro Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau hyd at Fawrth 2025 - angen sicrhau adnoddau ar gyfer cwblhau'r Fframwaith Adfywio
- Ansicrwydd am brif raglenni ariannol ar ôl Mawrth 2025, a diffyg adnoddau a grantiau ar gyfer datblygu a gweithredu prosiectau sydd wedi eu hadnabod fel blaenoriaethau lleol
- Amserlen ar gyfer gweithredu Prosiect Gwella Profiad Canol Trefi - angen ei gwblhau erbyn Rhagfyr 2024 yn unol â gofynion arian SPF
- Angen hawlio grantiau Trawsnewid Trefi erbyn diwedd Mawrth 2024
- Angen blaenoriaethu (ardaloedd a phrosiectau) wrth dargedau adnoddau Traws Newid Trefi yn ystod 2025/26

**4. Amserlen**

- Byddwn yn cynnig diweddariadau ar y Fframwaith Adfywio (a'r Cynlluniau Adfywio Lleol drafft) i'r Aelodau lleol drwy Fforymau Ardal yn ystod Ch 4 2024/25
- Byddwn yn cwblhau gwariant Cronfa Allweddol Cefnogi Cymunedau cyn diwedd mis Mawrth 2025
- Byddwn yn cwblhau Prosiect Gwella Profiad Canol Trefi cyn diwedd mis Mawrth 2025
- Byddwn yn cwblhau Cynllun Creu Lle canol tref Dolgellau cyn diwedd mis Mawrth 2025
- Byddwn yn ystyried cyfleoedd ar gyfer cyflwyno ceisiadau grant Rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025/6 a 2026/7

| ADRODDIAD PERFFORMIAD PROSIECT BLAENORIAETH ADRAN ECONOMI A CHYMUNED | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth Gwella:** | **Gwynedd Lewyrchus** |
| **Prosiect:** | **Creu'r amgylchiadau gorau posib yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd mewn i waith** |
| **Adroddiad Arweinydd Prosiect:** | **Sioned Williams/Dylan Griffiths** |
| **Dyddiad:** | **Tachwedd 2024** |
| **Amcan y prosiect:** | Byddwn yn cefnogi busnesau a mentrau cymunedol Gwynedd i ffynnu mewn sawl ffordd megis datblygu cynnyrch a chael mynediad i farchnadoedd newydd, helpu mentrau i arbed arian drwy leihau gwastraff a defnyddio technoleg yn well, cefnogi busnesau yng Ngwynedd i fasnachu gyda'i gilydd a blaenoriaethu helpu mentrau sydd yn ymrwymo i dalu 'cyflog byw gwirioneddol' i'w gweithwyr. Byddwn yn hybu busnesau i wneud y mwyaf o'r Gymraeg, yn datblygu mwy o unedau busnes i'w gosod ar rent, ac yn ymdrechu i sicrhau fod prosiectau Cynllun Twf Gogledd Cymru yn elwa pobl Gwynedd. Byddwn hefyd yn helpu pobl Gwynedd i gyflawni eu potensial a chefnogi'r rhai sydd wedi eu heithrio o'r farchnad lafur i ddychwelyd i waith a gweithio gyda chyflogwyr i'w helpu i sicrhau gweithwyr digonol. |

## 1. Beth sydd wedi ei gyflawni ers y cyfarfod diwethaf?

Cefnogi busnes a menter

- Mae 244 o fusnesau wedi derbyn cymorth hyd yma yn ystod 2023/24 ac mae 4,300 o fusnesau ar gyfartaledd yn ymgysylltu'n fisol.
- Ymgynghorwyd ag Aelodau Cabinet y Cyngor i sefydlu cyfeiriad ar gyfer creu Cynllun Economi newydd i Wynedd.
- Mae Cronfa Her ARFOR <https://menterabusnes.cymru/cronfa-her-arfor/> yn cynnig cymorth i ymchwilio a threialu datrysiadau arloesol i heriau lleol a rhanbarthol gan ddysgu am y cysylltiad rhwng yr economi a'r iaith. Mae 9 o fudiadau o Wynedd wedi llwyddo i sicrhau £1.3M o arian o'r Gronfa, sef yr uchaf yn y rhanbarth.
- Bellach mae 45 o fusnesau ar hyd a lled Gwynedd wedi derbyn cynigion o gymorth gwerth £1.4 miliwn o'r Cronfeydd Datblygu Busnes ariannwyd gyda'r SPF. Mae £1.05 miliwn eisoes wedi ei dalu i fusnesau.
- Mae'r cynllun Ailwefru, gomisiynwyd gan y Cyngor, bellach wedi i helpu 42 busnes lleol adolygu eu gweithgaredd a pharatoi i'r dyfodol. Mae 17 busnes arall wedi cofrestru.

- Gydag arian SPF, mae'r Adran hefyd gweithredu'r cynllun Dyfodol Digidol i helpu busnesau lleol wneud gwell defnydd o dechnoleg i leihau eu costau ac / neu gynyddu eu gwerthiant. Mae 305 o sesiynau hyfforddiant yn cael eu cynnal drwy'r cynllun gyda 95 o fusnesau hefyd wedi elwa o gymorth mentora unigol.
- Rydym yn parhau i gefnogi cynlluniau Cais Twf Gogledd Cymru, gan roi sylw arbennig i'r cynlluniau sydd yn cynnig y budd mwyaf i Wynedd yn y Rhaglen Ddigidol, Rhaglen Ynni, Rhaglen Twristiaeth Bwyd Amaeth a'r Rhaglen Tir ac Eiddo.
- Mae 9 o sesiynau glaw heibio cymorth busnes wedi eu cynnal ers Ionawr ynghyd â 3 o ymweliadau o gan yr Aelodau Cabinet i fusnesau. Cynhaliwyd 6 o ffeiriau gwybodaeth ledled y sir i annog busnesau i fanteisio'n llawn ar y detholiad o gymorth busnes sydd ar gael yn y sir eleni o ganlyniad i arian SPF.
- Cynhaliwyd Wythnos Busnes Gwynedd mis Hydref gyda chyfres o ddigwyddiadau wedi eu trefnu i fusnesau yn Nolgellau, Pwllheli a Bangor. Mae uchafbwyntiau'r digwyddiadau i weld ar ffrydiau X a Linkedin a bydd newyddlen i Aelodau yn cael ei chynhyrchu hefyd i rannu prif negeseuon busnesau Gwynedd.
- Mae ymgyrch y Cyngor i annog trigolion ac ymwelwyr i gefnogi busnesau lleol wedi bod yn brysur gyda postiadau cyfryngau cymdeithasol Prynu'n Lleol wedi cyrraedd at 50,000 o gyfrifon eraill.

Cefnogi pobl Gwynedd i ddychwelyd i waith a chyflawni eu potensial

- Mae gweithgaredd y rhaglen Llwyddo'n Lleol , sy'n targedu pobl ifanc 11-35 i gynyddu ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd ar gael yn lleol eisoes wedi creu 8 o swyddi newydd a diogelu 12 yn rhagor yng Ngwynedd dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae 17 o bobl ifanc wedi cael hyfforddiant busnes, gyda chefnogaeth ariannol gwerth dros £1,000 yr un i gychwyn ar eu taith i sefydlu menter newydd.
- Mae 124 o drigolion lleol oedd wedi eu heithrio o'r byd gwaith wedi sicrhau swydd yn dilyn derbyn cefnogaeth tîm Gwaith Gwynedd hyd yma yn ystod 2024/25.
- Cynhaliwyd 8 o ffeiriau swyddi wedi ei trefnu lleded y sir ers Ionawr i helpu cyflogwyr ac unigolion yn chwilio am waith. Mynychwyd y ffeiriau gan dros 130 o gyflogwyr a dros 750 o unigolion.
- Mae gweithgaredd newydd Gwaith Gwynedd i helpu trigolion gynyddu eu sgiliau - a thrwy hynny eu henillion - eisoes wedi helpu 99 o bobl.

## 2. Y camau nesaf

Y prif weithgaredd ar gyfer y cyfnod nesaf fydd:

- Paratoi drafft o Gynllun Economi Gwynedd cyn diwedd y flwyddyn
- Sicrhau fod pob busnes sydd wedi derbyn cynnig o gymorth ariannol yn gorffen y gwaith cyn diwedd y cyfnod arian SPF.
- Gwireddu cynlluniau'r Cyngor yn y maes cefnogi busnes / cefnogi pobl i waith ariannwyd gan yr SPF a'u gwerthuso

- Sicrhau fod y Rhaglen ARFOR yn cael ei gwblhau a'i werthuso erbyn Mawrth 2025
- Cwblhau cytundeb cyd-fenter gyda Llywodraeth Cymru, penodi adeiladwr a chychwyn adeiladu unedau gwaith newydd y Cyngor yn Minffordd.

## 3. Risgiau

- Roedd amserlen gweithredu'r rhaglenni ariannol yn golygu fod yn rhaid i'r Adran recriwtio nifer fawr o swyddi dros-dro. Gyda'r rhaglenni i gyd yn dod i ben ar yr un pryd yn Mawrth 2025, bydd nifer o swyddi dan fygythiad o fewn yr Adran. Bydd y nifer yn llawer iawn yn fwy ar draws sefydliadau yn y sir.
- Mae ansicrwydd sylweddol ynglŷn â maint a threfniadau gweinyddu unrhyw arian ar ôl Mawrth 2025 sydd yn llesteirio ein gallu i gynllunio i'r dyfodol.
- Mae'r wasgfa ar gyllidebau cyhoeddus yn ehangach yn cynyddu'r pwysau. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cwtogi ar y cyllid maent yn darparu i Awdurdodau Lleol o fewn meysydd megis cymorth i'r di-waith.
- Mae buddsoddiadau sylweddol yn y sir, yn cynnwys cynlluniau'r Cytundeb Twf, yn agored i risg yn sgil newid ym mholisïau ac ymrwymiadau hir dymor Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Prydain.

## 4. Amserlen

Gweler uchod

| ADRODDIAD PERFFORMIAD PROSIECT BLAENORIAETH ADRAN ECONOMI A CHYMUNED | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth Gwella:** | **Gwynedd Lewyrchus** |
| **Prosiect:** | **Hyrwyddo Ein Diwylliant ac Economi Ymweld Cynaliadwy** |
| **Adroddiad Arweinydd Prosiect:** | **Roland Evans** |
| **Dyddiad:** | **Tachwedd 2024** |
| **Amcan y prosiect:** | Byddwn yn cymryd cyfres o gamau er mwyn hyrwyddo ein diwylliant a chreu economi ymweld cynaliadwy:<br><br>➔ Bydd Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri, a luniwyd ar y cyd gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, yn cael ei lansio yng ngwanwyn 2023. Bydd prif bartneriaid a rhanddeiliaid yn cydweithio i gyflawni'r hyn fydd yn y Cynllun gan sefydlu Partneriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri.<br>➔ Byddwn yn sicrhau llewyrch o'r dynodiad Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru a sicrhau adnoddau i gyflawni Cynllun Gweithredu Safle Treftadaeth y Byd.<br>➔ Byddwn yn Rheoli Cartrefi Modur sy'n ymweld â Gwynedd drwy beilota datblygu hyd at 6 safle pwrpasol i gartrefi modur aros dros nos.<br>➔ Bydd cynnal Eisteddfod Genedlaethol 2023 yng Ngwynedd yn llwyfan i ddathlu ein diwylliant a'n hiaith, y celfyddydau a chwaraeon a sicrhau bod yr Eisteddfod yn gadael gwaddol cadarnhaol yng nghymunedau Gwynedd. |

1. **Cynnydd ers y cyfarfod diwethaf, mis Ionawr 2024:**

<u>Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy</u>

- Pob elfen o'r strwythur gweithredu newydd wedi cyfarfod ac wedi llywio datblygiad y Cynllun Gweithredu ar gyfer 2024-25
- Y Grŵp Sector Twristiaeth wedi ethol dau gyd-gadeirydd yn ogystal â 2 gyd-is-gadeirydd i gynrychioli'r gymuned a'r sector fusnes.
- Mesuryddion newydd wedi eu mabwysiadu.
- Cynllun gweithredu gyda chorff arweiniol ac allbynnau wedi ei gymeradwyo gan y Bwrdd Strategol mis Mehefin.
- Bwletin wedi ei gyhoeddi fis Medi i ddiweddaru partneriaid am gynnydd gwaith.
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi cytuno i ymrwymo i'r bartneriaeth ar gyfer ardal Conwy Wledig. Cytundeb o ddealltwriaeth newydd wedi ei ddrafftio i'w arwyddo rhwng y 3 prif bartner.
- Gwaith ar weithredu'r Cynllun 'Diwyllesiant' yn mynd yn ei flaen gan gynnwys rhaglen gyfathrebu a marchnata 'profiadau' ac i annog iaith, diwylliant, treftadaeth a chynnyrch Gwynedd ac Eryri.
- Swydd Cydlynydd Twristiaeth Gynaliadwy wedi ei phenodi i gefnogi'r maes gwaith.
- Arolwg barn trigolion ar dwristiaeth yn cael ei gynnal ac ymchwil budd cymunedol yn deillio o ddigwyddiadau yn cael ei baratoi ar y cyd gyda Phrifysgol Bangor.

Llewyrch o'r dynodiad Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi

- Strwythur gweithredu newydd ac aelodaeth newydd wedi ei gytuno gan y Bwrdd Partneriaeth mis Hydref er mwyn symleiddio gweithredu, bod yn fwy cynrychiadol ac i gadarnhau trefniadau gweithredu a chyfathrebu cliriach.
- Adolygiad o'r Cynllun Gweithredu Safle Treftadaeth y Byd ar waith er mwyn symleiddio a gosod mesuryddion clir a mesuradwy.
- Cyfarfodydd wedi eu cynnal gyda'r 6 cydran er mwyn rhannu gwybodaeth a diweddaru ar weithgareddau.
- Prosiectau Llewyrch o'r Llechi ar waith wedi ei ariannu drwy Raglen LUF a SPF:

| | |
|---|---|
| Bethesda | ▪ Gwaith cychwynnol ar Lôn Las Ogwen wedi ei gwblhau.<br>▪ Uwchraddio Neuadd Ogwen bron wedi ei gwblhau<br>▪ Tendrau Hen Bost wedi eu derbyn – trafodaethau'n parhau o ran costau a chyllidebau<br>▪ Gwelliannau Stryd Fawr: lleoliadau ar gyfer gwelliannau wedi eu hadnabod a rhaglen waith wedi ei chytuno gyda Priffyrdd<br>▪ Artist wedi ei phenodi i wneud gwaith celf cyhoeddus<br>▪ Pecyn gwaith cadwraeth sylweddol wedi ei gychwyn er mwyn diogelu a dehongli Ysbyty Chwarel Penrhyn |
| Llanberis | ▪ Ceisiadau Cynllunio ar gyfer gwelliannau Parc Padarn wedi eu cyflwyno.<br>▪ Rhaglen waith ar gyfer Amgueddfa Lechi Cymru mewn lle a thîm wedi eu penodi i ymgysylltu a gweithredu'r gwelliannau. Amgueddfa Lechi bellach wedi cau dros dro hyd 2026.<br>▪ Trafodaethau o ran y celf cyhoeddus ar waith gyda'r gymuned a'r artist Howard Bowcott gyda chais cynllunio wedi ei gyflwyno.<br>▪ Gwelliannau Stryd Fawr: lleoliadau ar gyfer gwelliannau wedi eu hadnabod a rhaglen waith wedi ei chytuno gyda Priffyrdd |
| Blaenau Ffestiniog | ▪ Sefydlu llwybr cyswllt Blaenau Ffestiniog a Llechwedd ar waith.<br>▪ Gwelliannau ar Aelwyd yr Urdd wedi cychwyn.<br>▪ Gwelliannau i adeiladau'r Stryd Fawr ar gychwyn.<br>▪ Gwelliannau Stryd Fawr: lleoliadau ar gyfer gwelliannau wedi eu hadnabod a rhaglen waith wedi ei chytuno gyda Priffyrdd<br>▪ Original Roofing Company wedi eu penodi i ymgymryd â chynllun celf gyhoeddus. |
| Penygroes | ▪ Celf Gyhoeddus: lleoliad wedi ei gytuno gyda'r artist.<br>▪ Gwelliannau Stryd Fawr: lleoliadau ar gyfer gwelliannau wedi eu hadnabod a rhaglen waith wedi ei chytuno gyda Priffyrdd |
| Porthmadog | ▪ Celf Gyhoeddus: lleoliadau wedi eu cytuno gyda'r artist Howard Bowcott a'r gelf yn cael ei ddatblygu<br>▪ Uwchraddio Golff Giamocs wedi ei gwblhau.<br>▪ Gwelliannau Stryd Fawr: lleoliadau ar gyfer gwelliannau wedi eu hadnabod a rhaglen waith wedi ei chytuno gyda Priffyrdd |
| Tywyn | ▪ Celf Cyhoeddus: lleoliad wedi ei gytuno gydag Ymgynghoriaeth Gwynedd i wneud gwaith tirlunio ar y stryd fawr.<br>▪ Gwelliannau Stryd Fawr: lleoliadau ar gyfer gwelliannau wedi eu hadnabod a rhaglen waith wedi ei chytuno gyda Priffyrdd |

- Cynllun Cyfathrebu wedi ei fabwysiadu a chyfarfodydd misol wedi eu cynnal gyda'r Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu.
- Cais £2m i Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol wedi llwyddo ar gyfer prosiect LleCHI Llenni. 1 rheolwr a 2 swyddog wedi eu penodi i'r prosiect dros gyfnod o 5 mlynedd. Gweithgareddau wedi cychwyn yn cynnwys dehongli, gwaith cymunedol, celf, sgiliau, teithiau awyr agored, addysg, hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant y bröydd llechi.

<u>Cartrefi Modur</u>

- Safleoedd Criccieth, Llanberis a Pwllheli a Chaernarfon yn weithredol a defnydd cyson o'r safleoedd. Llanberis yn 70% llawn ar gyfartaledd ers agor fis Mehefin gyda sylwadau cadarnhaol wedi eu derbyn gan ddefnyddwyr.

<u>Diwylliant a gwaddol Eisteddfod</u>

- Cronfa wedi ei sefydlu a'i dyrannu i gefnogi cymunedau, busnesau a sector ddiwylliannol Gwynedd yn dilyn yr Eisteddfod trwy gyllid SPF. Y nifer canlynol o geisiadau a gwariant wedi eu cymeradwyo:

| **Cronfa** | **Nifer prosiectau wedi cefnogi** | **Cyfanswm gwariant SPF** |
|---|---|---|
| Cefnogi Diwylliant | 24 | £318,032.10 |
| Cefnogi Byw'n Iach | 49 | £229,510 |
| Cefnogi Digwyddiadau | 58 | £158,118 |
| **CYFANSWM** | **131** | **£705,661.16** |

- Cwblhau adolygiad Cynllun Busnes Neuadd Dwyfor er mwyn rhedeg y Neuadd yn fwy effeithlon a denu cynulleidfa.
- Wedi comisiynu gwaith i ail-ddehongli Amgueddfa Lloyd George trwy gyllid SPF mewn partneriaeth gyda'r Cyfeillion. Trafodaethau wedi eu cynnal i gytuno ar strwythurau llywodraethu a'r Cynllun Busnes i'r dyfodol.

**2. Y camau nesaf**

<u>Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy</u>

- Gweinyddu a monitro effaith cronfeydd ariannu perthnasol yn deillio o Ffyniant Cyffredin a chynnal sesiynau gyda'r sector i:
    - wreiddio'r egwyddorion
    - gefnogi creu a rhannu negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol
    - hyrwyddo'r cynllun Llysgennad a'r cynnig Cymraeg
    - rheoli risg mewn digwyddiadau
- Sefydlu achrediad Pencampwr Gwynedd ac Eryri 2035 i fusnesau a mentrau lleol.
- Cynnal uwch-gynhadledd Flynyddol Economi Ymweld Cynaliadwy fis Chwefror 2025.

<u>Llewyrch o'r dynodiad Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi</u>

- Cynnal Digwyddiad Blynyddol Llechi Cymru.
- Sefydlu a gweithredu'r strwythur partneriaeth newydd.

- Cryfhau trefniadau cyfathrebu i sicrhau bod gwybodaeth am fuddsoddiadau yn cael eu rhannu er mwyn codi ymwybyddiaeth cymunedau a busnesau o'r cyfleoedd.
- Monitro, gweithredu a rheoli risg pob elfen a phartner prosiect

Arosfan (Cartrefi Modur)

- Cynnal adolygiad o wersi a ddysgwyd wrth ddatblygu'r peilot a gwersi a ddysgwyd yn dilyn gweithrediad 12 mis.

Diwylliant a gwaddol Eisteddfod

- Cwblhau adolygiad Cynllun Busnes Neuadd Dwyfor er mwyn rhedeg y Neuadd yn fwy effeithlon a denu cynulleidfa.
- Cwblhau prosiect ail-ddehongli Amgueddfa Lloyd George trwy gyllid SPF a chytuno strwythurau llywodraethu a'r Cynllun Busnes
- Sefydlu Ymddiriedolaeth Storiel a chytuno'r Cynllun Busnes
- Cynnal digwyddiad i sector diwylliant Gwynedd fis Chwefror.

## 3. Risgiau

- Bod strwythur rheoli newydd Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy yn heglog neu gymhleth ac yn defnyddio llawer o amser gweinyddu – bydd angen adolygu rheolaidd ar hyn.
- Diffyg diddordeb gan fusnesau a mentrau mewn dod yn 'Bencampwr Gwynedd ac Eryri 2035'
- Methiant partneriaid allweddol i weithredu prosiectau Cynllun Llewyrch o'r Llechi o fewn yr amserlen yn arwain at golli buddsoddiad yn yr ardal. Mae cofrestr risg fanwl wedi ei pharatoi ar gyfer y Cynllun sydd yn cael ei fonitro gan y Bwrdd Rhaglen.
- Fod datblygiadau sylweddol yn gallu peri risg i'r dynodiad Treftadaeth Byd – ond mae trefniadau cynllunio cadarn mewn lle i reoli'r risg yma.
- Risg i fethu sefydlu Ymddiriedolaeth Storiel unwaith yn rhagor oherwydd y gofynion caeth gan y Comisiwn Elusennau a'r banciau a gorwariant yn sgil hynny.
- Methu amserlen ar gyfer ail-ddehongli Amgueddfa Lloyd George yn arwain at ddiffyg ariannol i gwblhau'r prosiect.

## 4. Amserlen

Gweithredu yn unol ag amserlenni tynn cyllidwyr yn ystod 2024 a 2025 a chyflawni'r camau nesaf a welir yn rhan 2 yn ystod 2024-25